# Disgrifiad Swydd

**CYFARWYDDIAETH:** Addysg a Chymorth i Deuluoedd

**ARAN:** Darpariaeth Amgen y Bont

**SWYDD:** Cymorth Arbennig (SSO) - Y Bont

**GRADD Y SWYDD:** GR07

**YN ATEBOL I:** Athro â Gofal

---

**DIBEN Y SWYDD:**

Bydd yn ofynnol i ddeiliad y swydd weithio yn Adran Gynradd ein darpariaeth drws troi a bydd yn ofynnol rhoi cymorth i ddisgyblion ag anghenion anawsterau ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol (BESD), gan hyrwyddo a chynorthwyo'r broses o'u hailintegreiddio yn ôl i'r brif ffrwd.

---

**PRIF GYFRIFOLDEBAU A GWEITHGAREDDAU:**

- Goruchwylio a darparu cymorth penodol i ddisgyblion yn y Bont drwy ddefnyddio strategaethau ac adnoddau priodol.
- Gweithredu gweithgareddau dysgu/rhaglenni addysgu y cytunwyd arnynt gan addasu gweithgareddau yn ôl anghenion disgyblion.
- Cynorthwyo wrth ddatblygu a gweithredu cynlluniau Addysg/Ymddygiad Unigol.
- Gyda hyfforddiant rhoi sylw i anghenion personol disgyblion a gweithredu rhaglenni personol cysylltiedig, gan gynnwys cymdeithasol, iechyd, corfforol, hylendid, cymorth mewn argyfwng, cymorth meddygol ac anghenion lles a gweinyddu meddyginiaeth lle y bo angen.
- Herio a chymell disgyblion, hyrwyddo ac atgyfnerthu hunan-barch.
- Gwneud argymhellion i staff ar ddulliau o wella cynhwysiant disgyblion.
- Ymgymryd â gweithgareddau dysgu/rhaglenni addysgu strwythuredig y cytunwyd arnynt, addasu gweithgareddau yn unol ag ymatebion disgyblion.
- Cymryd rhan mewn unrhyw weithgareddau hyfforddi a datblygu er mwyn cynnal eich datblygiad proffesiynol eich hun i wella cymhwysedd yn y swydd.
- Cynorthwyo â'r broses o gadw a diweddaru cofnodion, gan gynnwys gweinyddu asesiadau llinell sylfaen.

**DYLETSWYDDAU CYFFREDINOL**

**Iechyd a Diogelwch**
Cyflawni'r rolau a chyfrifoldebau cyffredinol a phenodol a nodir yn y Polisi Iechyd a Diogelwch

**Cyfle Cyfartal**
Sicrhau bod pob gweithgaredd yn cael ei weithredu yn unol â deddfwriaeth cyfle cyfartal ac arfer gorau.

**Diogelu**
Mae amddiffyn plant, pobl ifanc neu oedolion mewn perygl yn un o gyfrifoldebau craidd pob cyflogai. Dylid rhoi gwybod am unrhyw bryderon i'r Tîm Diogelu Oedolion ac Ansawdd neu'r Tîm IAA a Diogelu.

**Adolygiad a Hawl i Amrywio**
Mae'r Disgrifiad Swydd hwn fel yr un cyfredol a chaiff ei adolygu'n rheolaidd. Efallai y bydd gofyn i chi gyflawni tasgau eraill y gellir eu neilltuo i chi'n rhesymol, gan gynnwys gweithgareddau datblygu, sydd o fewn eich gallu a'ch gradd.

**GWIRIAD COFNODION TROSEDDOL**

Mae'r swydd hon yn ei gwneud yn ofynnol cael gwiriad cofnodion troseddol drwy'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS).

Bridgend County Borough Council
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
www.bridgend.gov.uk

## Manyleb y Person

## Cymorth Arbennig (SSO) - Y Bont

Mae'r priodoleddau canlynol yn cynrychioli amrediad y sgiliau, y galluoedd a'r profiad ac ati sy'n berthnasol i'r swydd hon. Disgwylir i'r ymgeiswyr fodloni'r priodoleddau sydd wedi'u nodi fel rhai hanfodol (Ydy)

| Pridoleddau | Gofynion | Hanfodol | Dull Gwerthuso / Profi |
|---|---|---|---|
| **Cymwysterau, Addysg a Hyfforddiant** | • FfCCh (NVQ) Lefel 3 i Gynorthwywyr Addysgu neu gyfwerth, neu brofiad amlwg.<br>• Cofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg.<br>• Hyfforddiant Team Teach neu barodrwydd i ymgymryd â hyfforddiant perthnasol. | Ydy<br>Ydy<br>Ydy | Cyflwyno tystysgrifau cymwysterau gwreiddiol a ffurflen gais. |
| **Gwybodaeth a Phrofiad** | • Profiad o weithio gyda phlant a phobl ifanc â BESD neu ofalu amdanynt.<br>• Deall egwyddorion rheoli ymddygiad. | Ydy<br>Ydy | Cyfweliad, ffurflen gais, geirda a'r broses ddethol. |
| **Gwybodaeth a Phrofiad** | • Gallu gweithredu a datblygu cynllun dysgu gwahaniaethol.<br>• Defnydd effeithiol o TGCh i gynorthwyo dysgu.<br>• Rheoli amser yn effeithiol a blaenoriaethu gwaith pan fo angen. | Ydy | Cyfweliad, ffurflen gais, geirda a'r broses ddethol. |

| Pridoleddau | Gofynion | Hanfodol | Dull Gwerthuso / Profi |
| --- | --- | --- | --- |
| | • Trwydded yrru lawn a mynediad i gerbyd modur ar gyfer y gwaith.<br>• Cymhwysedd o ran sgiliau sylfaenol rhifedd a llythrennedd.<br>• Gallu gweithio'n adeiladol fel rhan o dî<br>• Mae'r gallu i gynnal sgwrs sylfaenol drwy gyfrwng y Gymraeg yn un o’r gofynion ar gyfer y swydd hon. | Ydy | |